*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2818

## Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cod" ("*the Code*") yw'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau o dan adran 10 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007; ac

ystyr "ystadegau sy'n sensitif i'r farchnad" ("*market-sensitive statistics*") yw ystadegau a fyddai, o'u datgelu, ym marn y person cyfrifol, yn rhesymol debygol o gael effaith arwyddocaol ar werth unrhyw fuddsoddiad neu ar nifer y trafodion ar unrhyw fuddsoddiad.

**Ystadegau y mae'r rheolau a'r egwyddorion ynghylch gweld ystadegau cyn eu rhyddhau yn gymwys iddynt**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r Atodlen yn gymwys i'r ystadegau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3).

(2) At ddibenion y Cod, mae'r Atodlen yn darparu ar gyfer rheolau ac egwyddorion ynglŷn â chaniatáu i'r ystadegau hynny gael eu gweld cyn eu rhyddhau(**1**).

(3) Yr ystadegau yw ystadegau swyddogol(**2**) sydd yn gyfan gwbl yn ystadegau datganoledig Cymru(**3**) ac—

(a) sydd wedi'u dynodi'n "Ystadegau Gwladol" o dan adran 12(2) o'r Ddeddf, heb i'r dynodiad hwnnw gael ei ddileu;

(b) y bernir yn rhinwedd adran 12(8) o'r Ddeddf eu bod wedi'u dynodi'n "Ystadegau Gwladol", heb i'r dynodiad hwnnw gael ei ddileu; neu

(c) y mae cais o dan adran 12(1) o'r Ddeddf wedi'i wneud mewn perthynas â hwy, heb i benderfyniad gael ei wneud o dan adran 12(2) o'r Ddeddf.

(4) Nid yw'r Atodlen yn gymwys pan gaiff yr ystadegau eu rhyddhau dim ond er mwyn i gyhoeddiad electronig neu gyhoeddiad copi caled y bwriedir cyhoeddi'r ystadegau ynddo gael ei gynhyrchu.

(**1**) Diffinnir "gweld ystadegau cyn eu rhyddhau" ("*pre-release access*") yn adran 11(8) o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 p. 18 ("y Ddeddf").

(**2**) Diffinnir "ystadegau swyddogol" ("*official statistics*") yn adran 6(1) o'r Ddeddf.

(**3**) Diffinnir "ystadegau datganoledig Cymru" ("*Welsh devolved statistics*") yn adran 66(3) o'r Ddeddf.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Andrew Davies*
Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

20 Hydref 2009